OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 2797

# Gorchymyn Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (Cychwyn Rhif 2, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Cymru) 2006

**Darpariaethau Deddf 2005 sy'n dod i rym ar 27 Hydref 2006**

**2.** Daw darpariaethau canlynol Deddf 2005 i rym ar 27 Hydref 2006—

(a) adran 11 (hysbysiad symud);

(b) adran 12 (gwaredu);

(c) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, adran 13 (canllawiau);

(ch) adran 15 (hysbysiad symud);

(d) adran 16 (gwaredu);

(dd) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, adran 17 (canllawiau);

(e) adran 34 (tynnu placardiau a phosteri);

(f) at ddibenion amnewid adran 5 (ond gan eithrio adran 5(2)(d)) o Ddeddf Rheoli Llygredd (Diwygio) 1989(**1**), adran 37 (pwerau gorfodi);

(ff) adran 50 (pŵer i'w gwneud yn ofynnol i berchennog tir symud gwastraff oddi yno);

(g) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, adran 56 (gorchmynion rheoli cŵn: darpariaethau atodol);

(ng) adran 66 ("person priodol");

(h) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, adran 67 (rheoliadau a gorchmynion);

(i) adran 80 (gorchmynion a rheoliadau);

(j) adran 81 (dehongli);

(ll) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, adran 83 (tramgwyddau sŵn: defnyddio derbynebau cosb benodedig);

(m) adran 84 at ddibenion dwyn i rym paragraffau 2, 7(2)(a) a (3), 8(2) a 12(2), (5) a (6) o Atodlen 1 i Ddeddf 2005 (estyn Deddf Sŵn 1996(**2**) i gwmpasu mangreoedd trwyddedig etc.);

(n) adran 86 (gohirio dyletswydd i gyflwyno hysbysiad gostegu);

(o) adran 99 (trolïau siopa gadawedig a throlïau bagiau gadawedig);

(p) adran 100 (adran 99: darpariaeth drosiannol);

(ph) yn Rhan 1 (cerbydau) o Atodlen 5 (diddymiadau), y diddymiadau i Ddeddf 1978 a Deddf 1984.

(**1**) 1989 p. 14; amnewidiwyd adran 5 gan adran 37 o Ddeddf 2005.
(**2**) 1996 p. 37.